| | |
|---|---|
| PWYLLGOR | Pwyllgor Craffu Addysg ac Economi |
| DYDDIAD | 23ain Ionawr 2018 |
| TEITL | Ymchwiliad craffu posib i'r maes "effaith datblygiadau adeiladau newydd ar gyfer ysgolion ar ansawdd addysg" |
| PWRPAS | Sefydlu'r egwyddor o gynnal ymchwiliad i'r maes ac adnabod aelodau |
| AWDUR | Cynghorydd Beth Lawton,<br>Cadeirydd |
| SWYDDOG PERTHNASOL | Vera Jones,<br>Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd |

1. Mae'r Pwyllgor yn ymwybodol fod gwaith y Gweithgor Craffu ar y Gwasanaeth Ieuenctid wedi dod i ben wrth adrodd i'r Pwyllgor Craffu heddiw.

2. Yn unol â'r trefniadau arferol, mae'r Pwyllgor felly i adnabod maes ar gyfer yr ymchwiliad craffu posib nesaf.

3. Mae nifer o aelodau wedi codi cwestiwn ynghylch a ydym yn glir os oes effaith gadarnhaol ar addysg disgyblion wedi dod yn sgil y datblygiadau dros y blynyddoedd diwethaf yn ysgolion y sir – boed yn ddatblygiadau o adeiladau newydd i ysgolion, ac/neu yn ddatblygu ysgolion newydd. Mae'r cwestiynu ynghylch effaith y ddarpariaeth newydd ar ansawdd yr addysg a phrofiad disgyblion, gan holi a yw'r buddsoddiad ariannol wedi arwain at wella'r ansawdd, ac a oes ymarfer da neu gwersi i'w dysgu wrth i'r rhaglen ddatblygol barhau.

4. Cyn gwneud unrhyw waith pellach a symud ymlaen i ddatblygu briff llawn ar gyfer yr ymchwiliad, gofynnir i'r Pwyllgor fabwysiadu'r egwyddor o gynnal ymchwiliad i'r maes.

5. Gofynnir hefyd i'r Pwyllgor adnabod hyd at 5 aelod i fod yn rhan o'r gwaith.

6. Bydd y briff llawn, amserlen ac adnabod adnoddau i gefnogi'r ymchwiliad yn cael ei ddatblygu dros yr wythnosau i ddod.

7. Argymhelliad - Gofynnir i'r Pwyllgor

    a. Fabwysiadu'r egwyddor o gynnal ymchwiliad i'r maes "effaith datbygiadau adeiladau newydd ar gyfer ysgolion ar ansawdd addysg"
    b. Adnabod 5 aelod i fod yn rhan o'r ymchwiliad